

modd ychwanegu at y rhestr wedi hynny wrth gwrs ond gorau po gyntaf y gellir eu cyhoeddi. Anfonwch nhw trwy e-bost i john.cilfynydd@btinternet.com neu ffoniwch **01286 872390**.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 13: Gwasanaethir yn yr oedfa **am 2.00 o'r gloch** gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Rhagfyr 8: Cyfarfod Carolau y Gymdeithas Undebol **am 7.00 o'r gloch**.

Nos Wener, Rhagfyr 11: Trip CIC i Ganolfan Bowlio 10 Glasfryn, Y Ffôr.

Dydd Sul, Rhagfyr 13: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol **yn Capel Coch am 4.00 o'r gloch**.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 13: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 13: Yr Ysgol Sul

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 13

2.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Rhagfyr 20

10.00 a.m. - Gwasanaeth Nadolig yng ngofal y plant a'r ieuencid, a'r Gweinidog

2.00 p.m. - Y Gweinidog

am 10.00 o'r gloch, ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 7: Te Nadolig y Dosbarth Gwau yng Nghaffi Coed y Brenin.

Nos Iau, Rhagfyr 10: Y Gymdeithas yng nghapel Jerusalem, Bethesda am 7.00 o'r gloch. Adloniant Nadoligaidd yng nghwmni Lleisiau Traeth Lafan.

Nos Wener, Rhagfyr 11: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 13: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Rhagfyr 11: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 6

10.00 a.m. - Mr Edward Morris Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa Nadolig yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd

Rhagfyr 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

4.00 p.m. - Oedfa Garolau Undebol yn Capel Coch

Rhagfyr 20

10.00 a.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Nadolig yng ngofal yr Ysgol Sul



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 661: Dydd Sul, 06 Rhagfyr, 2015

Hwre! Bomio!

Fu dim llusgo traed wedi'r bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin nos Fercher. O fewn yr awr roedd yr awyrennau Prydeinig wedi dechrau bomio Syria.

Cyn y bleidlais, fe'n sicrhawyd gan Mr Cameron y byddai arbenigedd lluoedd Prydain a rhagoriaeth ein bomiau clyfar ni dros fomiau pawb arall sy'n bomio Syria yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r frwydr yn erbyn ISIS (neu *Daesh* fel y cyfeirir at y gelyn erbyn hyn). Ond drannoeth y bleidlais, ac o fewn oriau i gyrch cyntaf yr awyrennau Prydeinig roedd Mr Cameron yn ein rhybuddio y byddai'r ymgyrch hon yn un hir iawn. Chlywais i mo'r cyfan a ddywedodd y Prif Weinidog cyn nos Fercher, ond o'r hyn a glywais chefais i mo'r argraff honno ganddo o gwbl. Yn hytrach, yr argraff a roed oedd y byddai cyfraniad Prydain at yr ymgyrch yn prysuro gorchfygiad ISIS ac yn diogelu pobl Prydain rhag yr ymosodiadau anochel. Ofnir bellach mai fel arall y mae a bod y Senedd wedi neidio i ryfel hir a chostus a gwaedlyd. Cafwyd hefyd rybuddion (nid o du Mr Cameron wrth gwrs) fod y bygythiad i'n diogelwch yng ngwledydd Prydain yn fwy o lawer ers y bleidlais y noson o'r blaen.

'Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef ... amser i ryfel ac amser i heddwch,' meddai Llyfr y Pregethwr (3:1 a 8). Gwaetha'r modd, amser i ryfel yw hi unwaith eto. Roedd hynny'n siom, ac roedd rhai o'r pethau a glywyd cyn ac wedi'r bleidlais yn

siomedig hefyd. Un o'r pethau hynny oedd y sylw a wnaed gan Mr Cameron fod pobl a oedd yn dadlau yn erbyn y bomio yn cydymdeimlo â therfysgwyr. Roedd yr awgrym hwnnw'n sen ar bawb a fu'n dadlau'n synhwyrol yn erbyn y bomio. Mor drist hefyd oedd clywed bonllfau o gymeradwyaeth gan gynifer o aelodau seneddol pan gyhoeddwyd canlyniad y bleidlais. Mewn difrif, ai dyna'r ymateb priodol i benderfyniad i ddechrau bomio? Roedd yr ymateb hwnnw'n ei gwneud yn anodd peidio â chredu fod llawer o aelodau seneddol wrth eu bodd efo'r syniad o fynd i ryfel unwaith eto.

Beth allwn ei wneud heblaw gresynu at y penderfyniad a wnaed yn San Steffan nos Fercher? Hawdd fyddai digalonni ac anobeithio'n llwyr o weld cynifer o bobl sy'n dal i gredu mai trwy ryfela y mae dod â therfyn i ryfel ac mai trwy fomio y mae datrys anghyfiawnderau ein byd. Ond beth allwn ei wneud? Dal i weddio dros bobl sy'n dioddef oherwydd y trais a'r lladd a'r bomio. Dal i weddio dros bawb sy'n mentro i estyn cymorth i'r dioddefwyr hynny. Dal i weddio y caiff gwleidyddion ac arweinyddion byd y doethineb i geisio heddwch a chymod. Cefnogi ym mhob ffordd bosibl y mudiadau sy'n ymgeleddu'r dioddefwyr. Ac ar drothwy'r Nadolig, cyhoeddi'r Crist a ddaeth i'n plith yn Dywysog Hedd, a gwahodd pobl i gredu ynddo er mwyn cael eu cymodi â Duw ac â'i gilydd trwy ei waith achubol ar Galfaria.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Edward Morris Jones, Llandegfan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Parti Bytholwyrdd.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Diolch i bawb sy'n arwain yr addoliad yn ein plith heddiw.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Carolau Nadolig Cymdeithas Undebol Llanberis

Cynhelir Cyfarfod Carolau Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am **7.00 o'r gloch nos Fawrth, Rhagfyr 8.**

Sylwch ar y dyddiad os gwelwch yn dda. Hwn yw'r dyddiad a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfarfod yn wreiddiol, ond buom yn meddwl yr wythnos ddiwethaf y byddai raid ei newid.

Ond fe gynhelir y cyfarfod ar y dyddiad gwreiddiol wedi'r cwbl. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu nos Fawrth er mwyn i ni gael cychwyn ein dathliadau Nadolig. Bydd croeso cynnes i bawb.

Oedfa Garolau

Yn lle'r oedfa arferol yn Capel Coch nos Sul nesaf, Rhagfyr 13, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Sant Padarn am 4.00 o'r gloch. Roedd y Gwasanaeth hwn yn Capel Coch y llynedd, ac felly ein tro ni yw mynd i'r Eglwys eleni. Bydd aelodau'r eglwys yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Cofiwch yr amser – **4.00 o'r gloch** bnawn Sul nesaf.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn festri Bethlehem, Talybont er budd Cronfa'r Capel a Chronfa'r Ysgol Sul nos Fawrth diwethaf, Rhagfyr 1. Diolch yn fawr i bawb a fu'n paratoi ar gyfer y Ffair ac yn helpu i gynnal y cyfan. Roedd yn dda gweld y festri yn orlawn unwaith eto, a gwerthfawrogir yr holl gefnogaeth yn fawr iawn. Roedd yr elw ychydig dros £800. Diolch yn fawr i bawb.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2015 yn cau ddydd Sul Rhagfyr 27. Gwerthfawrogir pob ymdrech i gwblhau cyfraniadau 2015 mewn da bryd erbyn y dyddiad hwnnw.

CIC

Bydd criw CIC Llanberis yn ymuno â chriwiau CIC Llanrug a Chaersalem Caernarfon nos Wener, Rhagfyr 11. Trefnwyd iddynt ymweld â'r Ganolfan Bowlio 10 ym Mharc Glasfryn, Y Ffôr.

Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis (o flaen Gwesty'r Heights) am 6.30 o'r gloch. Dylem fod adref yn Llanberis tua 9.30 o'r gloch.

Pris y noson fydd £10 (yn cynnwys cost y bowlio a'r bws). Cofiwch roi gwybod i Andrew os ydych am ddod efo ni. Ffoniwch 07929916181 a dychwelyd y ffurflen a anfonodd atoch.

Cynllun Efe

Nos Fawrth ddiwethaf, Rhagfyr 1, yng nghapel Caethro cynhaliwyd cydgyfarfod o ymddiriedolwyr Cynllun Efe a Trobwynt. Mae Trobwynt yn gweithio yn Llŷn ac Eifionydd gan wasanaethu'r eglwys yn eu cenhadaeth ymhlith plant a ieuentid a theuluoedd.

Mae'r cysylltiad rhwng y ddwy elusen wedi ei hen sefydlu. Roedd Trobwynt wedi ei sefydlu flwyddyn neu ddwy cyn Cynllun Efe, a chawsom gyngor a help gan ymddiriedolwyr yr elusen wrth fynd ati i gychwyn Cynllun Efe.

Mae'r cysylltiad wedi para ers hynny a'r ddwy elusen wedi cydweithio i drefnu sawl digwyddiad dros y blynyddoedd. Ers deunaw mis, bu'r cydweithio yn nes fyth gan ein bod wedi 'benthg' ein gweithiwr ieuentid Andrew i Trobwynt, a hwythau wedi bod yn rhannu costau

cynnal a swydd a chyflog Andrew gyda ni. Penderfynwyd yn gynharach eleni y bydd y trefniant hwnnw yn para am dair blynedd arall hyd at fis Medi 2018.

Edrychwn ymlaen felly at ddatblygu'r berthynas â Trobwynt, a gweddiwn dros Andrew a'i waith.

Roedd naw ohonom yn y cyfarfod nos Fawrth, pedwar o ymddiriedolwyr o'r naill elusen a'r llall, ac Andrew. Cafwyd cyfle i gadarnhau'r trefniadau ac i drafod manylion y cytundeb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Roedd yn gyfle hefyd i ni gyflwyno'r gwaith gyda'n gilydd o'r newydd i ofal Duw.

O ochr Efe, mae llawer o'r gwaith trafod a threfnu gyda Trobwynt yn cael ei wneud gan Clive James, Caethro, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Ariannol. Diolch iddo am ei holl waith, a diolch hefyd i Susan Williams, Ceunant a, ei gwaith fel Ysgrifennydd Efe.

Clywsom yn y cyfarfod nos Fawrth fod un o ymddiriedolwyr Efe, Mrs Mair Hughes, Capel y Rhos, Llanrug, yn dymuno ymddiswyddo. Diolchwn i Mair am ei chefnogaeth a'i gwaith ers i ni sefydlu Cynllun Efe fel elusen rai blynyddoedd yn ôl. Mae ei chefnogaeth i Efe ac i Andrew wedi bod yn fawr, a gwerthfawrogwn hynny.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn y flwyddyn newydd, tua diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror. Gobeithiwn gyhoeddi dyddiad pendant yn Gronyn yr wythnos nesaf.

Trefniadau'r Nadolig

Anfonwch fanylion am gyfarfodydd ac oedfaon a gweithgareddau'r Nadolig yn yr eglwys at y Gweinidog erbyn diwedd yr wythnos os gwelwch yn dda er mwyn eu cynnwys yn Gronyn y Sul nesaf. Bydd